
Rhif 195 MEHEFIN - GORFFENNAF 2015

# Gwyliedydd

Synod Cymru

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD



# YN ÔL I'N MAN CYCHWYN

## Y Synod ym Mathafarn

Daeth cynrychiolwyr o bob cwr o Gymru i Fathafarn, Rhuthun, ar gyfer cyfarfod blynyddol y Synod ar 25 Ebrill. Diolch i Mrs Elizabeth Jones, Arweinydd Ardal Bathafarn, a thîm o aelodau ffyddlon yr Ardal am y croeso cynnes a'r cinio hyfryd. Cawsom adroddiadau yn sôn am feysydd amrywiol bywyd y Synod: cysylltiadau ecwmenaidd, Polisi a Chyllid, gwaith yr Ymddiriedolwyr, diogelu, Gweithredu Dros Blant a Chartrefi'r Henoed, cenhadaeth, Merched Methodistaidd ym Mhrydain a'r Gwyliedydd.

### Datblygu Ein Galwad

Y llynedd penderfynodd y Synod roi cynnig ar wneud pethau newydd fel disgyblion i'r Iesu gan ddilyn thema Ein Galwad – Dysgu a Gofalu. Clywsom fod llawer o gapeli ac Ardaloedd wedi mentro rhoi cynnig ar bethau bach a mawr. Er enghraifft, dechreuwyd cylchlythyr yn Ardal y Glannau; sefydlwyd seiat yng Nghaernarfon; penderfynodd Ardal Glannau Meirion a Dyfi drefnu picnic i bawb gael dod at ei gilydd. Ysgogwyd llawer i feddwl am syniadau drwy ddefnyddio Llyfryn yr Adfent, "Byw Ben i Waered". **Dyna osod sylfaen: ein gobaith yw parhau i ddatblygu. Cytunodd y Synod ar thema arall i'w dilyn, o blith pedair thema Ein Galwad, ar gyfer blwyddyn gyfundebol 2015-16. Y thema hon yw Addoli.**

### Sut deimlad yw bod yn ifanc mewn capel y dyddiau hyn?



Wel, dydi o ddim yn hawdd! Dyna a ddywedwyd wrthym gan **Megan Thomas, Llywydd Ieuenctid yr Eglwys Fethodistaidd**, **yn ei hanerchiad i'r Synod – sef yn sicr uchafbwynt y cyfarfod.** Merch yn ei hugeiniau cynnar yw Megan. Pan oedd yn ei harddegau byddai'n mynd i gapel Wesle bach Pentre Llifior ym Mhowys.

Cynulleidfa o ryw ddeg ar ddiwrnod da, neb ifanc ond hi a'i brawd.

Y rheswm y cynigiodd Megan am swydd y Llywydd Ieuenctid oedd fod arni eisiau i bawb, gan gynnwys yr ifanc, wybod bod iddynt le yn yr Eglwys.

### Synod Cymru – Cenhadaeth a Dyfodol



Yn y prynhawn, croesawyd i'n plith y Dr Daleep Mukarji, cyn Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd a chyn-Gyfarwyddwr Cymorth Cristnogol.

Diddorol tu hwnt oedd clywed am ei gefndir fel un a ddaw o India ac am y gwahanol fannau y bu'n byw ac yn gweithio. Rhaid cofio bod mwy nag un persbectif ar bethau, yn aml.

Yr her i ni yw parchu ein gwahaniaethau, rhannu â'n gilydd a chymryd risgiau er mwyn ein ffydd.



*Ifan Llywelyn, a fedyddiwyd yn Ebeneser, Caernarfon, gyda'i rieni Deiniol a Manon.*





*Gwen Parry Jones ar fore'r Pasg*



*Jennie ar fore'r Pasg*



***Digon o wyau Pasg yn Shiloh, Tregarth!***

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 195**
**MEHEFIN – GORFFENNAF 2015**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

***Golygyddion:***


**ROBIN JONES**
LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA
GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk


***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU:**
**1 GORFFENNAF, 2015**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "**Yr Eglwys Fethodistaidd – Synod Cymru**"

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018


**Diolch yn fawr i Mari Fflur am lun y clawr.**

Diolchwn yn gynnes am roddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*:

| | |
|---|---|
| Dienw | £25-00 |
| Dienw | £25-00 |
| Mrs O.M. Whomsley | £30-00 |
| J.R. ac M.Davies | £4-00 |

Er cof annwyl am briod a thad gofalus,
**y Parchedig**
**JOSEPH EDWARD WILLIAMS**
*oddi wrth Ceinwen a John Henry*
Gwyn eu byd y rhai addfwyn.
Gwyn eu byd y rhai pur o galon.

# O'R GADAIR AR Y GOROR

## gan y Parchedig JENNIFER HURD


Ar 25 Mehefin, bydd hi'n ugain mlynedd ers i mi gael fy ordeinio. Ar ôl dwy flynedd ar brawf, cefais fy ordeinio yn ystod y Gynhadledd Fethodistaidd ym Mryste yn 1995, yn Victoria Methodist Church, Weston-super-Mare. Mae'r dydd ar dop rhestr dyddiau gorau fy mywyd, ynghyd â dydd fy mhriodas. Dyddiau dedwydd!

Mae Weston-super-Mare yn enwog am fod y môr yn mynd allan yn bell iawn yno ar adeg trai. Yn aml iawn, dydych chi ddim gallu gweld y môr, bron, gan mor bell ydyw. Mae'r un peth yn wir am dref glan môr lle bydd y Gynhadledd Fethodistaidd yn cael ei chynnal eleni, sef Southport. Rhwng dydd Sadwrn 27 Mehefin a dydd Iau 2 Gorffennaf, bydd cynrychiolwyr o bob cwr o'r Cyfundeb (gan gynnwys Synod Cymru), ac o dramor ac o enwadau eraill, yn cyfarfod i drafod materion pwysig ym mywyd eglwys Crist, ein cymdeithas a'n byd. Mae'n siŵr y bydd pawb yn mwynhau awyr iach, ond go brin y bydd llawer yn ymdrochi! Weston-super-Mare a Southport: dau le ar lan y môr, ond lle mae'r môr yn bell.

Roedd Iesu'n gyfarwydd â glan y môr, wrth gwrs, sef glannau Môr Galilea, llyn mawr. Ar lan Môr Galilea y galwodd ei ddilynwyr cyntaf, Simon, Andreas, Iago ac Ioan (e.e. Marc 1: 16-20). Pregethodd ar lan y môr (e.e. Marc 1: 13), a hyd yn oed mewn cwch ar y môr, fel yn efengyl Marc 4: 1. Teithiodd ar y môr (e.e. Marc 4: 35-41), a rhoddodd gynnyrch y môr i'r pum mil, i'w fwyta gyda bara (Marc 6: 25-44). Ar ôl iddo atgyfodi, cyfarfu â'i ddisgyblion ar lan y môr (Ioan 21), gan alw eto ar Simon Pedr i'w wasanaethu. Yn sicr roedd y môr yn arwyddocaol ym mywyd Iesu: mae'n gefndir i'w waith wrth iddo ddysgu, iacháu, pregethu a dangos cariad Duw. Rhaid imi gyfaddef fy mod yn teimlo rhyw siom o ddarllen Datguddiad 21:1, gweledigaeth o nef a daear newydd, lle mae'n dweud, "...yr oedd y nef gyntaf a'r ddaear gyntaf wedi mynd heibio, ac nid oedd môr mwyach." Ac yna ym mhroffwydoliaeth Eseia: "Caiff pob pant ei godi, pob mynydd a bryn ei ostwng" (Eseia 40:4). Dydi hynny ddim yn swnio'n nefolaidd chwaith! Dim môr? Dim mynyddoedd? Dim byd tebyg i Gymru, felly!

Mae'r môr yn symud drwy'r amser. Llanw a thrai, llanw a thrai. Mae ton yn dechrau ar un ochr i'r byd ac yn teithio i lan môr pell yr ochr arall i'r byd. Mae'r llanw yn cymryd amser i deithio; ar y daith, mae'n gwneud i bethau eraill deithio hefyd - llongau, anifeiliaid y môr, pysgod a hefyd, y dyddiau hyn, sbwriel pobl. Mae tua 71% o arwyneb y ddaear yn ddŵr ac arno y mae bywyd yn dibynnu. Dim syndod fod y môr mor amlwg yn hanes yr Iesu.

Mae rhai yn gweld bywyd yr eglwys yn debyg i'r môr – yn wir, symbol y mudiad ecwmenaidd yw cwch. Ar hyn o bryd, yng ngogledd y byd, yn ôl rhai, mae'r llanw wedi mynd allan i'r eglwysi. Fel petaem yn byw yn Weston-super-Mare neu Southport, edrychwn tua'r gorwel gan obeithio am y llanw i gynnig egni a bywyd, i lanhau'r traeth ac i'n hysbrydoli i fentrau newydd er mwyn teyrnas Dduw. Mae'n hawdd digalonni, ond rhaid cofio am rythm y môr. Fe ddaw y llanw i mewn, hyd yn oed os na wyddom ni pryd neu os na allwn hyd yn oed ei weld o bell. Ugain mlynedd yn ôl, cefais fy ordeinio mewn tref ar lan y môr lle na welir y môr yn aml. Eleni, yn y Gynhadledd Fethodistaidd, cefais fy ngwahodd eto i gymryd rhan mewn gwasanaeth ordeinio. Mae Duw yn parhau i alw pobl i'w wasanaethu, sy'n arwydd y bydd y llanw yn dod i mewn eto i ni yn yr eglwysi. Pryd, wyddom ni ddim, ond mae'n rhaid gwylio'r gorwel a bod yn barod. Mae Iesu'n cerdded ar lan y môr o hyd, ac mae'n ein galw ni i gerdded gydag ef. Boed iddo eich bendithio wrth i chi rodio a disgwyl i'r llanw ddod i mewn.



# merch y mans

## ELERI HUGHES



Eleri, merch ieuengaf y Parchedig a Mrs A. Percival Hughes, sy'n dod ag atgofion o fywyd y Mans i ni y tro hwn.

Dechrau ein taith ni fel teulu'r mans oedd yng Nghaerau, Maesteg, er nad oeddwn i yn aelod o'r teulu hwnnw bryd hynny. Cemegydd diwydiannol o Dreffynnon oedd fy nhad cyn derbyn yr alwad i fynd i'r weinidogaeth. Eisteddfodwraig frwdfrydig o Ben-y-groes, Arfon, oedd fy mam, yn adrodd a chanu ar lwyfannau'r wlad. Priodwyd y ddau yng nghapel Salem, Caernarfon. Roedd Mam yn aelod o gôr telyn Eryri, a phriodol, felly, oedd presenoldeb telynores Maldwyn a thelynores Eryri ynghyd â'u telynau yn y briodas.

Caerau – cartref y ddiweddar Norah Isaac – oedd eu cartref cyntaf ac yno y ganed iddynt ddwy o enethod, Evelyn a Barbara. Roedd y gymuned yn un glòs a chyfeillgar a chynulleidfaoedd y Sul yn rhai sylweddol. Stori fach na ellir ei hepgor yw sut y bu i Evelyn, fy chwaer hynaf, a hithau ond yn dair neu bedair oed, benderfynu cadw cwmni i'w thad yn y pulpud ryw fore Sul. Cymerodd ei lle y tu ôl iddo gan godi dim ond i ganu'r emynau a Dad druan ar bigau drain trwy gydol y gwasanaeth!

Ymhen tair blynedd dyma godi pac a symud i Dalsarnau ac yno y'm ganed i. Roedd Bryn Awel (y mans) wedi ei leoli ar ben rhiw serth. Roedd yn llecyn campus ar gyfer cadw'n heini ond yn hunllef i'r sawl a oedd yn gorfod gwthio pram i fyny'r rhiw. Roedd y gymdeithas yn un glòs a chymdogol. Byddai pregethwyr a gweinidogion gwadd yn lletya gyda ni o dro i dro yn ystod cyfarfodydd pregethu ac ati.

Symud i dref hyfryd Aberdyfi oedd y cam nesaf yn ystod y pumdegau cynnar. Er ei bod yn nefolaidd pan dywynnai'r haul, gallai'r gaeafau fod yn rhai garw. Ar feic olwyn â modur bach arno y byddai fy nhad yn teithio i'w gyhoeddiadau. Yn ystod misoedd oer y gaeaf cyrhaeddai adref o Dywyn neu Abergynolwyn wedi fferru, blaen ei fysedd wedi troi'n las a'i esgyrn wedi merwino. Roedd gennym aelod go arbennig yng nghapel Bethel, Aberdyfi, a eisteddai yn sêt gefn y capel. Nid wyf yn cofio'i enw ond cofiaf iddo fod am gyfnod yn aelod o'r Llynges a bu ffrwydrad erchyll ar fwrdd y llong y gwasanaethai arni. Anafwyd ei lygaid yn ddifrifol a'i adael yn hollol ddall. Byddai fy nhad yn ymweld ag ef yn gyson a thystiai ei fod yn ddyn hynod o ddiddorol a deallus.

Roedd yr hafau'n hir a phoeth yr adeg hynny, a hwyl a menter oedd i fy chwiorydd ddysgu nofio a dal crancod efo llinyn a phin dwbwl oddi ar y lanfa. Ar y trên stêm y byddai'r ddwy yn teithio i'r ysgol uwchradd yn Nhywyn – yr union ysgol, flynyddoedd yn ddiweddarach, y byddai fy mrawd yng nghyfraith yn brifathro arni.

Ni ellir ymadael ag Aberdyfi heb gyfeirio at yr awdures enwog Berta Ruck, awdur *A Trickle of Welsh Blood* ac *An Asset to Wales,* a oedd wedi ymgartrefu gyda'i theulu yn y dref. Weithiau byddem yn ei gwylio'n gwneud ei ffordd i'r môr i ymdrochi a hynny'n ddeddfol am chwech o'r gloch bob bore, haf a gaeaf. Bu farw ychydig ddyddiau ar ôl dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed.

Yn 1960 i ffwrdd â ni o heulwen glan y môr i Amlwch, Ynys Môn, a hynny gyda chalon drom, o'm safbwynt i beth bynnag. Coffa da o fynd ambell waith gyda fy nhad ar y Sul i Lanfair-yng-Nghornwy y prynhawn ac ymlaen i Dregele gyda'r hwyr. Hyfryd yr atgofion o dybio fy mod yn helpu gyda'r canu a hynny mewn cynulleidfa o bedwar neu bump. Uchafbwynt y prynhawn oedd mwynhau'r arlwy oedd wedi cael ei pharatoi ar aelwyd groesawus Llain Dirion. Ymlaen wedyn i Dregele. Wedi'r oedfa ymweld â dau o'r aelodau (tad a mab) sef Peter ac Owen Jones.

Rhan bwysig o swyddogaeth unrhyw weinidog gwerth ei halen yw bugeilio. Roedd fy nhad yn ymarfer ac yn mwynhau y rhan yma o'i weinidogaeth. Yn ystod yr haf byddai'n rhoi help llaw gyda'r cynhaeaf gwair ar fferm Penrhyn Mawr, Ynys Môn, a Thyddyn y Berth yn ardal Aberdyfi ac fel arwydd o ddiolch derbyniai wyau a llysiau neu gyw iâr adeg y Nadolig.

Symud, unwaith eto, i Benmachno ar gylchdaith Dyffryn Conwy y tro hwn a chael gwledd bob Sul yn gwrando ar lais swynol y tenor a'r codwr canu enwog Ritchie Thomas. Ambell waith ar ddiwrnod olaf y flwyddyn byddem yn cynnal gwylnos yn y capel i ffarwelio â'r hen flwyddyn a chroesawu'r flwyddyn newydd. Mae gennyf atgofion hapus o Mam a Dad yn cymryd rhan Mr a Mrs Denman sef detholiad o *Enoc Huws*, nofel enwog Daniel Owen, a Mam yn gwylltio am fod fy nhad yn anghofio'i eiriau yma ac acw. Dad a Barbara fy chwaer oedd y rhai heini yn ein tŷ ni. Ar ôl gorffen cinio Nadolig byddai'r ddau yn cychwyn gyda Siôn ein corgi bach ar daith gerdded o ryw dair milltir i Dŷ Mawr Wybrnant, cartref yr Esgob William Morgan. Un waith yn ystod y daith collwyd y ci bach yng nghanol yr eira ond daethpwyd o hyd iddo yn y diwedd, diolch i'r drefn. Ym Mhenmachno hefyd y daeth gwir gariad i fywyd Evelyn fy chwaer hynaf. Priodwyd hi a'i dyweddi (Raymond Foster Evans) yng nghapel Bethania gyda Dad yn gweinyddu a ffrind coleg i Evelyn yn canu'r organ.

Ymhen pum mlynedd, yn ôl wedyn i Ynys Môn a phentref hanesyddol Aberffraw. Yn ystod y cyfnod hwn daeth cwmwl tywyll i hofran dros y teulu, pan drawyd fy nhad gan strôc greulon. Roedd y tair ohonom oddi cartref erbyn hynny, ond gadawodd Barbara ei gwaith fel athrawes yn Lloegr a dychwelodd adref i helpu Mam. Ar ôl i Dad wella hi fyddai'n cymryd y rhannau arweiniol yn yr oedfaon er mwyn i Dad beidio â'i gorwneud hi.

Rwy'n hynod falch o'r cefndir a'r fagwraeth a gefais fel un o ferched y mans. Mae gennyf ddyled enfawr i'r ddysgeidiaeth Gristnogol gan mai drwyddi hi y dysgais am werthoedd gorau bywyd.

# SUL MHA

**14 MEHEFIN**

**Cyfle i gofio'n arbennig am waith Cartrefi'r Henoed**

Eleni, thema Sul MHA (y gellir ei ddathlu ar 14 Mehefin neu Sul arall os dymunwn) yw

**'Pwy yw fy nghymydog hŷn?'**

Cawn ein hatgoffa'n amserol fod gan Dduw bwrpas ar gyfer y rhai rydym ni'n aml yn eu diystyru.

Mae Trefn Gwasanaeth ar gael yn Gymraeg ar y wefan **http://www.mha.org.uk/get-involved/appeals/mha-sunday** ynghyd â llawer o wybodaeth ddiddorol



# Beth am Ysgol Sul i oedolion ?

gan y Parchedig
Ddr Huw John Hughes


Yn y *Gwyliedydd* y llynedd ysgrifennais grynodeb o gyfraniad Thomas Charles o'r Bala a hithau'n ddau can mlwyddiant ei farwolaeth. Y tro hwn dyma drin a thrafod un agwedd o'i gyfraniad a cheisio mynd i'r afael â her ei waith ar gyfer yr eglwys heddiw.

Oes yna ysgol Sul yn rhan o'ch eglwys chi? Pan fyddaf yn gofyn y cwestiwn yr ateb yn ddi-feth ydi, 'does gynnon ni ddim plant yn perthyn i'r eglwys.' A'r cwestiwn nesaf ydi, 'oes raid cael plant i gynnal ysgol Sul? Beth am ysgol Sul i oedolion?' 'O, does yna neb yn ddigon hyderus i lenwi swydd athro neu athrawes', a dyna daw ar y trafod. Meddyliwch am funud am y doniau sydd yn ein heglwysi. Rwy'n siŵr y byddai un yn barod i fod yn arweinydd am gyfnod byr, dyweder, ac efallai y byddai hyn yn creu awydd i eraill gymryd yr awenau ac ysgwyddo'r baich. Mae digonedd o esboniadau diweddar ar gael yn y Gymraeg a beth am y maes llafur cyfredol, cyfrol hylaw a diddorol sef *Dehongli Bywyd Iesu* gan y Parch. Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts. Ond mor barod ydyn ni i hel esgusodion a chwilio am bopeth negyddol sy'n llesteirio gwaith y deyrnas.

## Y braenaru a fu

Nodwedd gwbl unigryw yr ysgolion Sul cynnar, yn nyddiau Thomas Charles, oedd mai ysgolion ar gyfer y teulu cyfan oeddynt. Dyma i raddau helaeth oedd y prif wahaniaeth rhwng ysgolion Sul Lloegr a Chymru. Yn Lloegr, canolbwyntio ar y plant a wnâi'r Ysgol Sul tra yng Nghymru roedd pwyslais ar uned y teulu. Yn ôl Lewis Edwards, 'y pennaf o holl weithredoedd Charles o'r Bala' oedd sefydlu ysgolion Sul i bob oedran a hynny yn ei farn ef, 'yn beth anarferol ac annealladwy ym mhob gwlad oddieithr yn unig yng Nghymru.' Mae'n bur debyg fod elfen o ormodiaith yn yr haeriad hwn gan fod ysgolion Sul yn ardal Manceinion, cyn gynhared ag 1790, yn dysgu oedolion i ddarllen y Beibl ac fe lafuriai Hannah a Martha More, o 1789 ymlaen, i gyflwyno addysg grefyddol i weision ffermydd a diwydianwyr yng Ngwlad yr Haf.

Yr hyn a symbylodd Charles i ganolbwyntio ar addysgu'r oedolion oedd eu hanwybodaeth a lesteiriai ei waith fel pregethwr. Gyda'r blynyddoedd cynyddai'r disgyblion o bob oed ac erbyn haf 1811 agorwyd ysgol benodol ar gyfer oedolion yn y Bala. Gwêl y cyfarwydd ddylanwad cyfundrefn addysg Griffith Jones, Llanddowror, gan i'r arloeswr hwnnw agor ysgolion gyda'r nos ac ar y




Sul ar gyfer oedolion. Roedd Charles eisoes wedi paratoi deunyddiau addas ar gyfer y plant ond bellach gyda chynifer o oedolion yn mynychu'r ysgolion Sul rhaid oedd paratoi canllawiau pendant ar eu cyfer hwy er mwyn iddynt ddeall a dehongli'r Beibl yn ddeallus. Gan nad oedd esboniadau penodol ar lyfrau'r Beibl yn y cyfnod hwn, er bod Beiblau â throednodiadau ynddynt, cyhoeddodd y *Geiriadur Ysgrythyrol* i'w cynorthwyo. Ond y mae tystiolaeth gadarn fod yr oedolion yn defnyddio llyfrau'r plant i ddysgu darllen gan y cyfeirir at Catherine Griffith o Benrhyndeudraeth, er enghraifft, yn dechrau dysgu'r wyddor pan oedd hi'n 80 oed!

Ym marn Charles lledaenodd dylanwad yr ysgolion hyn i galon y gymdeithas. Codasant ymwybyddiaeth grefyddol ymhlith y bobl gyda'r pwyslais ar wybodaeth Feiblaidd a'r awch i ddarllen ac astudio'r Gair a phen draw hyn oedd i aelodau'r ysgolion Sul mewn sawl ardal ymgynnull i godi capel. Mewn gair, roedd hyder newydd yn y tir. Elfen bwysig i Charles oedd cyfuno cymdeithas gyfan, yr oedolion a'r plant, i ddysgu ar y cyd, a llwyddodd i oresgyn yr hen syniad na fedrai pobl oedrannus gael eu haddysgu. Tybed ai ein gwendid ni heddiw yw rhannu yn hytrach na rhoi lle i bob oed gyda'i gilydd yn ein haddoliad?

Yn ystod gweddill y ganrif ac ymlaen i'r ugeinfed ganrif gwelwyd bri ar ddosbarthiadau oedolion yn yr ysgolion Sul. Ac fe wn i am ddosbarthiadau oedolion rhagorol y dyddiau hyn sy'n cyfarfod yn rheolaidd ar derfyn oedfa ar fore Sul. Beth amdani felly?

## Sut mae mynd ati i gynnal dosbarth i oedolion?

**Trafodaeth Gyffredinol**

- trafod a gweddïo ymhlith eich gilydd. Peidiwch â gadael i niferoedd eich rhwystro rhag mynd ymlaen. Mae gennym ryw obsesiwn ynglŷn â faint oedd yn bresennol mewn oedfa!
- penderfynwch ar amser penodol
- dewiswch arweinydd. Os bydd raid gellir dewis arweinydd am fis a rhannu'r gwaith ymhlith aelodau'r dosbarth
- peidiwch â gorfodi unrhyw aelod i fod yn arweinydd

**Cynnal y dosbarth**

- awgrymaf ddilyn y maes llafur cyfredol sef *Dehongli Bywyd Iesu* ar gyfer 2015-16
- bydd angen paratoi ymlaen llaw drwy ddarllen yr adran o'r Beibl a'r adran berthnasol yn yr esboniad

**Cynllun ar gyfer gwers**

- gweddi agoriadol neu gyfnod o ddistawrwydd
- darllen yr adran o'r Beibl. Un i ddarllen yn hytrach na darllen adnod o un i un
- sylwadau byr gan yr arweinydd yn seiliedig ar yr esboniad
- trin a thrafod gan roi digon o gyfle i aelodau'r dosbarth
- trafod y cwestiynau ar gyfer y wers
- trafod arwyddocâd y darlleniad ar gyfer heddiw
- cloi gyda gweddi.

Yr hyn sy'n bwysig yw rhoi digon o gyfle i bawb sy'n dymuno rhoi ei farn ond peidio â gorfodi neb i ymateb.

**Trefn y dosbarth**

- eistedd yn gylch neu hanner cylch fel bod pob aelod yn gweld ei gilydd. Peidiwch ag eistedd mewn rhesi. Does dim yn fwy diflas na gweld cefn y person o'ch blaen!
- bydd hanner awr i dri chwarter awr yn hen ddigon ar y dechrau.

Rhowch wybod i'r golygyddion os ydych wedi mynd ati i atgyfodi neu ddechrau o'r newydd ddosbarth i'r oedolion yn eich eglwys. Dydych chi ddim yn rhy hen i ddysgu! Dowch i ni ymateb i her Thomas Charles.

Dymunaf yn dda i chi.

# CAPEL NI
# YN EGLWYS IESU

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**DATHLU**
Cyfarchion arbennig i'n horganydd, Mrs Jane Jones, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar Fai 2il. Mwynhewch y gwyliau! Dymuniadau da gan yr aelodau i gyd.

*Gohebydd – Eirian Jones*

## Salem, Rhyd y Foel

**PRIODAS AUR**
Llongyfarchiadau calonnog i Bob ac Eryl Roberts, Tan'r Ogo, Llanddulas, ar ddathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol ar Fai 17eg.

**MARATHON LLUNDAIN**
Dymunwn longyfarch Mrs Julie Roberts, Cefn Castell, priod Elwyn Roberts (Tan'r Ogo gynt) ar gwblhau ras Marathon Llundain o fewn 4 awr 19 munud. Fe gasglwyd dros £7,000 tuag at elusen Cancr y Fron.

**CÔR GLANAETHWY**
Mae Beth a Steffan Roberts yn aelodau o gôr Glanaethwy ac mae cryn gynnwrf gan i'r côr fynd ymlaen i rownd nesaf "Britain's Got Talent". Pob lwc iddynt!

*Gohebydd – Siân Price*

## Seion, Pwllheli

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mrs Mary Parry, Coch y Moel, Bryncroes gynt, a gollodd ei chwaer, Jean Laudan, yn ddiweddar. Roedd Jean yn briod â Tudor ac yn fam i Angela, Gillian a'r ddiweddar Karen. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu oll.

**Y GRAWYS**
Cynhaliwyd un o gyfarfodydd undebol y Grawys yn Seion o dan ofal y Parchedig Gwyn Thomas. Cymerwyd rhan yn ogystal gan y Dr Osian Ellis, ac ef oedd yr organydd.

**YMWELIAD Y CADEIRYDD**
Roeddem yn falch iawn o groesawu'r Parchedig Ddr Jennifer Hurd atom. Gweinyddwyd y Cymun a chawsom oedfa fendithiol iawn.

**MERCHED METHODISTAIDD**
Ym Mhorthmadog y cynhaliwyd cyfarfod Merched Methodistaidd y tro hwn, yng Nghapel Salem lle cawsom groeso cynnes gan y Parchedig Iwan Llywelyn Jones. Y siaradwr oedd Llinos Roberts sydd yn gweithio gyda Chymorth Cristnogol. Valerie Williams oedd yn cymryd rhan o blith aelodau Seion sef darllen o'r Ysgrythur a ledio emyn. Diolch yn fawr iddi.

*Gohebydd – Elizabeth Owen*

## Pisgah, Rhiwlas

**GWELLHAD BUAN**
Yn ddiweddar mae Mr Griff Owen wedi bod yn yr ysbyty sawl gwaith. Ar hyn o bryd mae yn Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon. Anfonwn ein cofion ato gan ddymuno gwellhad buan. Nid yw Mrs Meirwen Owen wedi bod yn rhy dda chwaith a dymunwn yn dda iddi hithau hefyd. Hyfryd yw cael dweud fod aelodau eraill o'r Eglwys yn gwella'n dda; rydym yn meddwl amdanoch i gyd.

**YMWELIAD Y CADEIRYDD**
Ym mis Ebrill bu'r Parchedig Jennie Hurd yma yn cynnal gwasanaeth a chawsom oedfa fendithiol yn ei chwmni. Croesawyd hi i'n plith gan Lywydd y Mis, Rhian Evans.

**GWERTHFAWROGI GWYNFOR**
Hoffem ddiolch i'r Parchedig Gwynfor Williams am ei ffyddlondeb i ni fel cynulleidfa ac am ofalu amdanom i gyd.

*Gohebydd – Dilys Parry*

## Bethel, Rhiwbeina

**GWASANAETH O FAWL**
Prynhawn Sul Ebrill 19eg cafwyd cyfarfod hyfryd o ganu emynau ym Methel gyda chyfle i groesawu atom aelodau o gapeli eraill Ardal Morgannwg ac eglwysi eraill lleol. Plant Ysgol Sul Bethel oedd yn gyfrifol am y defosiwn agoriadol. Roedd gan bob plentyn ei ran unigol a chafodd y gynulleidfa fendith a mwynhad o wrando arnynt. Y cyd-arweinyddion oedd ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, ac un o aelodau Bethel sef Trystan Francis. Dyma'r tro cyntaf i Trystan arwain mewn oedfa fawl ac ychwanegodd at fwynhad y prynhawn drwy ganu unawd. Ein horganydd ffyddlon, Gwilym Roberts, oedd yn cyfeilio ac er mai dyma'r tro cyntaf iddo gyfeilio mewn cymanfa, gwnaeth ei waith yn raenus dros ben. Rhoddwyd y diolchiadau gan y Parchedig Ddr. Ian D Morris, Pontarddulais. Wedi'r oedfa cafwyd te prynhawn hynod o flasus yn y festri. Diolch yn fawr i'r rhai a fu'n brysur yn paratoi'r wledd.

**BORE GOFFI**
Cynhaliwyd bore goffi llwyddiannus yn y capel ar fore Mawrth, Ebrill 14eg gyda'r elw yn mynd at Wasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru. Daeth llond y capel yno i brynu a mwynhau paned a theisen gri. Diolch i'r merched gweithgar am baratoi'r lluniaeth. Codwyd dros £520.

**YMWELWYR**
Fore Sul Ebrill 26ain cafwyd cyfle i groesawu dwy wraig o'r Unol Daleithiau i'r oedfa. Roedd y ddwy yn aelodau o Eglwys Fethodistaidd Unedig America. Er nad oeddent yn siarad Cymraeg, roeddent yn tystio iddynt ddeall naws yr addoli a'r canu. Offrymwyd gweddïau yn ystod y gwasanaeth i gofio am drigolion Nepal wedi'r daeargrynfeydd nerthol yn y wlad honno dros y Sadwrn a'r Sul hwnnw. Dwysawyd ein gweddïau gan fod dyweddi merch un o'n haelodau yn Kathmandu yn gweithio fel dyn camera. Da o beth oedd clywed yn ddiweddarach ei fod yn ddiogel.

*Gohebyddion – Gwilym E. Roberts a Gwyndaf Roberts*

## Saron, Bethel, Arfon

**COLLI MEIRWEN**
Daeth profedigaeth arall i'n rhan fel capel bach ym Methel yn ddiweddar sef colli Mrs Meirwen Jones, a hynny yn frawychus o sydyn gan mai wythnos union y bu hi'n wael. Roedd Meirwen yn aelod ffyddlon, tawel a pharod iawn ei chymwynas. Roedd hefyd yn hael ei chyfraniadau a'i chefnogaeth i bob achos da. Bu hi a'i phriod Gwilym yn cadw siop a Swyddfa Bost Bethel am flynyddoedd lawer, y ddau yn uchel iawn eu parch am eu gofal ac am eu caredigrwydd difesur i'r holl gymuned. Cydymdeimlwn yn fawr â'i phriod Gwilym a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**DAMWAIN**
Cafodd Mrs Gwenan Doy ddamwain i'w llaw yn ddiweddar wrth baratoi bwyd yn ei chegin gartref. Brysiwch wella, Gwenan! Yn ffyddlon bob Sul mae Gwenan yn dod â'i thri phlentyn bach Huw, Cadi a Charles ar y bws o Gaernarfon i'r capel.

*Gohebydd - RJ*

## St Paul, Aberystwyth

**GWASANAETHAU UNEDIG**
Ar nos Iau Cablyd bob blwyddyn mae cynulleidfaoedd eglwysi a chapeli Aberystwyth yn cyd-addoli mewn oedfa ddwyieithog ac fe'i cynhaliwyd eleni yng Nghanolfan St Paul. Cafwyd oedfa fendithiol iawn dan arweiniad y Parchedig Roger Hides. Am y tro cyntaf yn y gwasanaethau hyn, cafwyd seremoni o olchi traed rhai o'r addolwyr er mwyn cofio Iesu'n golchi traed y disgyblion. Yn ôl yr arfer uchafbwynt yr oedfa oedd dathlu Swper yr Arglwydd. Arweiniwyd y canu gan grŵp o gerddorion o'r gynulleidfa Saesneg yn St Paul.

Ar brynhawn dydd Sul yr ugeinfed o

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU



*Pen-blwydd Anti Jane*

Ebrill roedd rhai o aelodau St Paul yn gyfrifol am drefnu gwasanaeth Cymraeg yn y neuadd gymunedol yn Waunfawr. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ysgrifennydd St Paul, Delyth Evans, a darllenwyd o'r Ysgrythur gan Jim Jones. Roedd nifer dda o drigolion Waunfawr yn bresennol. Pleser arbennig oedd cael Trefor Lloyd Jones o gapel St Paul gyda ni unwaith eto.

**CROESO NÔL**
Yn ddiweddar mae Gareth a Nonna Owen wedi symud i Aberystwyth i fyw yn Rhianfa, Coedlan Iorwerth. Dyma'r tŷ lle magwyd Nonna a lle trigai ei rhieni, Eluned a Richard Isaac, aelodau ffyddlon yn St Paul, hyd nes iddynt farw yn 2009 a 2013. Arlunydd yw Gareth. Yn ystod Ebrill a Mai dangoswyd ei arddangosfa ddiweddaraf 'Llanuwchllyn' yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth. Trefnwyd noson yn Ebrill pan siaradodd ef am yr arddangosfa a chafwyd trafodaeth ddiddorol amdani.

**DYMUNIADAU DA**
Dymunwn yn dda i Ray Foster Evans a gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen ddiwedd mis Ebrill. Mae'n dda dweud ei fod yn dod ymlaen yn iawn. Anfonwn ein dymuniadau gorau hefyd at yr aelodau eraill na all ddod i'r oedfa ar hyn o bryd.

*Gohebydd – Lionel Madden*

## Bethel, Prestatyn

**YR YSGOL SUL**
Buom yn dilyn thema 'Y Claf o'r Parlys'. Mae'r plant wedi mwynhau dawnsio er mwyn gwerthfawrogi a diolch i Dduw fod gennym goesau a breichiau sy'n gweithio'n berffaith. Pawb yn ei dro wedyn yn cael ei godi mewn blanced fel y Claf o'r Parlys, cyn tynnu lluniau a gwneud modelau. Er mwyn adrodd stori'r Pasg i'r plant lleiaf, defnyddiwyd cacen simnel. Wedi cyfrif y peli marsipán a chlywed y stori, roedd y plant yn awyddus iawn i fwyta'r gacen.

**GWASANAETH Y PASG**
Hyfryd oedd cael cwmni'r Parchedig Jennie Hurd ar fore Sul y Pasg. Cawsom wasanaeth llawn bwrlwm a moliant. Ar ddechrau'r gwasanaeth cawsom gyfle i addurno'r groes – pawb yn y gynulleidfa, yn blant ac oedolion, yn dod â blodau i'w gosod ar y groes fel arwydd o fywyd newydd. Dathlu wedyn gyda phaned, byniau'r groes a chyfeillgarwch yn yr ysgoldy.

**CYFARFOD MERCHED METHODISTAIDD YM MHRYDAIN**
Aeth nifer o'r merched ar daith Merched Methodistaidd ym Mhrydain i Borthmadog. Thema'r diwrnod oedd 'Merched ar yr Ymylon' a chafwyd cyflwyniad diddorol iawn gan Llinos Roberts sy'n gweithio i Gymorth Cristnogol.

**PEN-BLWYDD ANTI JANE**
Llongyfarchiadau i Miss Jane Ellis ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Mae Jane wedi bod yn athrawes Ysgol Sul am bron i ddeugain mlynedd. Cafwyd parti 'syrpreis' iddi yn yr Ysgol Sul a chyflwynwyd anrheg iddi gan y plant a'u rhieni.

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau i Mrs Cerys Humphries sydd gartref erbyn hyn. Rydym yn cofio amdanoch yn ein gweddïau ynghyd â Mr John Herbert Williams, Mrs Joyce Parry, Mrs Gwyneth Hughes, Rhys Wyn Thomas a phawb sydd mewn gwaeledd.

**BOWLIO DEG**
Llongyfarchiadau mawr i John Henry Williams am ddod yn ail yng nghystadleuaeth bowlio deg Gogledd Lloegr yn Sheffield yn ddiweddar. Mae John Henry yn aelod o Gapel Bethel ac yn weithgar iawn yn yr eglwys.

*Gohebydd – Gwenda Humphries*



*Ysgol Sul Bethel, Prestatyn*

## Pontrobert

**LLONGYFARCHIADAU**
Ychydig yn hwyr, ond rhaid llongyfarch Bethan Watkin, Llanfyllin, ar ei llwyddiant yn cwblhau ei harholiadau yn Stafford a derbyn Gradd Anrhydedd Dosbarth 1af BSc. Mae Bethan yn nyrs yn Ysbyty Gobowen.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

# CNOI CIL

gan GWYNDAF ROBERTS

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal unwaith eto ym Maldwyn, siawns na fydd neb yn holi fel y gwnaeth llawer "Ble mae Meifod?"*!!*, sef safle Eisteddfod lewyrchus 2003 a chartref Prifwyl 2015 ar diroedd breision fferm Mathrafal. Mae'n wir dweud mai pentref bychan ydy Meifod fel y rhan fwyaf o bentrefi Maldwyn. Ond bu'r ardal yn dangos dewrder a phenderfyniad yn y frwydr i sicrhau na fydd peilonau enfawr yn anharddu'r dyffryn. Llwyddwyd i berswadio'r awdurdodau i gladdu'r ceblau dan ddaear ond fe fydd rhaid aros tan ar ôl etholiad 2015 i weld a fydd melinau gwynt ar fryniau Maldwyn a pheilonau yn anharddu ardaloedd eraill. Mae pobol Maldwyn yn fwyn ond gwae'r sawl a fyn groesi cleddyfau â hwy. Y nodwedd hon o'u cymeriad sydd wedi sicrhau bod y Gymraeg a'i diwylliant wedi parhau mor gadarn mewn sir sydd yn rhannu gymaint o'i ffin â Lloegr.

Ni fydd ymwelwyr i'r Eisteddfod efallai yn ymwybodol bod olion cynoesol o'u cwmpas ar y bryniau o bob ochr i afon Efyrnwy. Cafwyd hyd i wrthrychau o'r Oes Neolithig, yr Oes Efydd ac Oes yr Haearn ar y bryniau hyn sy'n profi bod pobol wedi byw yma ers o leiaf 4500 o flynyddoedd. Ni fydd rhaid mynd ymhell o faes yr Eisteddfod i ddarganfod olion y goresgynwyr cyntaf sef y Rhufeiniaid. Mae olion ffordd Rufeinig o Gaersws i Gaer Gai i'w gweld ger Moel Bentyrch sydd rhwng Llanfair Caereinion a Llanerfyl, ac yma ger y bryn hwn, fe gredir, y bu'r frwydr dyngedfennol olaf rhwng Caradog a'r Rhufeinwyr. Prawf arall os bu angen am ddewrder pobol Maldwyn.

Ond rhag i neb gredu mai pobol ymladdgar yw trigolion Maldwyn, mae'n bur debyg mae'r meudwy Gwyddfarch oedd y cenhadwr Cristnogol cyntaf i wneud ei gartref ym Meifod, efallai mor gynnar â'r bumed ganrif. Cafwyd hyd i olion Eglwys Gwyddfarch, sef teils llawr, wrth osod sylfeini capel yr Annibynwyr oddeutu 1870. Sylfaenwyd clas gan Gwyddfarch gan sicrhau Meifod fel canolbwynt pwysig i'r Eglwys Geltaidd am ganrifoedd maith. Mae safle Gwely Gwyddfarch i'w weld ar Allt yr Ancr, y bryn sy'n union uwchben pentref Meifod. Erbyn y seithfed ganrif adeiladwyd eglwys arall ym Meifod gan Tysilio, ail fab Brochwel Ysgythrog, ar dir helaeth a roddwyd gan Brochwel, gan gysylltu'r eglwys â'r tywysog a'i balas ym Mathrafal. Fe gladdwyd y tywysog Madog ap Maredudd ym Meifod yn 1160 ac ef fe gredir a fu'n gyfrifol am adeiladu trydedd eglwys Meifod a gysegrwyd i'r Santes Fair. Mae olion eglwys Madog i'w gweld yn yr eglwys bresennol a ailadeiladwyd yn ystod y bymthegfed ganrif. Mae olion gweithgarwch y seintiau Celtaidd i'w gweld hefyd yn y Llannau o gwmpas safle'r Eisteddfod -Tydecho, Cadfan, Erfyl, Cynyw, Wddyn, Myllin, Garmon, Ffraid, Trinio, Beuno, Gwyddelen a Cynon.

Gadawodd y Piwritaniaid a'r Crynwyr eu hoel ar yr ardal gyda gwŷr enwog fel Vavasor Powell a Walter Craddock yn gweithio'n ddiflino o dan amodau anodd. Dioddefodd y Crynwyr yn enbyd ac aeth llawer ohonynt o Lanwddyn a Meifod i'r drefedigaeth ym Mhensylfania yn 1682. Mae Tŷ Cwrdd y Crynwyr yn Dolobran yn dal i gael ei ddefnyddio gan y Crynwyr a gellir ymweld â'r llecyn hyfryd hwn i gofio am ddewrder aelodau'r sect unigryw hon.

Mae map o safle capeli'r enwadau eraill yn brawf pendant o ymroddiad diflino'r tadau cynnar. Nid oes ond rhaid enwi Dolwar Fach a chapel John Hughes Pontrobert i ddwyn i gof gyfnod cyffrous y Diwygiad Methodistaidd a gwŷr nodedig fel John Davies Tahiti a Lewis Evans Llanllugan.

Daeth John Wesley i'r Trallwng yn 1769 a'r prawf bod y tân wedi'i gynnau oedd codi'r capel ym Mhentre Llifior yn 1778. Agorwyd capel ym Meifod yn 1806 ac un newydd ar safle rhagorach yn 1874. Un o blant yr achos ym Meifod oedd y Parchedig David Jehu (1812-40). Ef oedd y gweinidog cyntaf o blith Wesleaid Cymru i farw wrth weithio fel cenhadwr mewn gwlad dramor, sef Sierra Leone, yn ei achos ef. Magwyd gweinidogion eraill nid nepell o faes yr Eisteddfod. Ganwyd y Parchedig John Cadvan Davies yn ardal y Foel a Llangadfan. Daeth yn Archdderwydd Cymru yn 1923. Bydd llawer yn cofio dau o weinidogion anwylaf yr enwad, sef Alun Wyn Francis ac Erfyl Blainey, y ddau yn ymgorffori nodweddion amlwg pobol Maldwyn. Ni fu Wesleaid y sir yn niferus ar unrhyw adeg ond mae'r enwad yn dal yno ac yn rhan o weinidogaeth bro o dan arweiniad y Parchedigion Peter Williams a Gwyndaf Richards. Ewch yn llu i Eisteddfod Meifod i brofi rhin un o ardaloedd hyfrytaf Cymru. Fe fydd ymweld â maes Mathrafal yn sicr o'ch cyfoethogi'n ddiwylliannol ond fe fyddwch yn ymwybodol hefyd bod y cyfan yn seiliedig ar werthoedd ysbrydol a chrefyddol ein cyndeidiau yn y ffydd.



I Eglwysbach, lle magwyd John Evans (1840-97), yr aeth pererindod Cymdeithas Hanes Synod Cymru ar 16 Mai eleni. Dyma lun y pererinion yn Eglwys Sant Martin, Eglwysbach. Cadwn y cof yn fyw am un "oherwydd ei harddwch corfforol, swyn anghymharol ei lais, bywiogrwydd ei ddychymyg, ei ddull dramatig, ei ddiffuantrwydd a'i angerdd, yr oedd ei ddylanwad ar ei gynulleidfaoedd yn anhygoel" [Tegla yn y Bywgraffiadur Cymreig]. Bydd adroddiad llawn yn rhifyn nesaf y Gwyliedydd.

**Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd:**

| | | |
|---|---|---|
| Mehefin | 7 | Ardal De Gwynedd |
| | 14 | Ardal Glannau Maelor |
| | 21 | Ardal Llanrhaeadr |
| | 28 | Y Gynhadledd Fethodistaidd |
| Gorffennaf | 5 | Ddim ar gael |
| | 12 | Ardal Ceredigion |
| | 19 | Ardal Môn ac Arfon |
| | 26 | Ardal Bathafarn |



**Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl**

# COLOFN GERDD

gan GARETH BLAINEY

## JEAN SIBELIUS (1865-1957)

Ledled y byd eleni mae cyngherddau wedi'u cynnal neu i'w cynnal i nodi fod cant a hanner o flynyddoedd ers genedigaeth Jean Sibelius. Cyfansoddwr o'r Ffindir oedd o a gwladgarwr wnaeth argraff fawr gyda darn cerddorfaol a berfformiwyd am y tro cyntaf ym mhrifddinas y wlad, Helsinki, ym 1900. Sôn rydw i am y gwaith rydyn ni'n ei nabod heddiw fel 'Finlandia', ond 'Y Ffindir Yn Deffro' oedd ei deitl gwreiddiol. Lluniodd Sibelius y darn i godi arian ar gyfer cronfa bensiwn i'r wasg yn Helsinki ac i gefnogi'r wasg yn ei hymdrechion i aros yn rhydd rhag pwysau gan arweinwyr Rwsia. Y wlad honno oedd yn rheoli'r Ffindir nes iddi sicrhau annibyniaeth ym 1917 ac yn y blynyddoedd cyn y garreg filltir honno yn hanes y wlad roedd 'Finlandia' yn symbol o ddyheadau cenedlaetholgar ei phobl. Cafodd y bobl eu gwahardd gan yr awdurdodau rhag chwibanu alawon y darn yn y strydoedd. Rydyn ni'n gyfarwydd iawn â'r brif alaw. Dyma dôn rhif 687 yn 'Caneuon Ffydd' ac ar y dôn hon y cenir geiriau Lewis Valentine:




'Dros Gymru'n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri,
Y winllan wen a roed i'n gofal ni,'

Dyma emyn rhif 852 yn 'Caneuon Ffydd' ac mae hi'n addas iawn fod yr emyn yn gyfuniad o eiriau un o'r cenedlaetholwyr mwyaf blaenllaw yn hanes Cymru a cherddoriaeth un o'r cenedlaetholwyr mwyaf nodedig yn hanes y Ffindir.

Bu Sibelius fyw nes oedd o'n 91 oed ond ni chyfansoddodd fawr ddim ar ôl 1931. Roedd o wedi gallu ymddeol i bob pwrpas bedair blynedd cyn hynny ac yntau'n cael pensiwn gwladol ac yn ennill digon o arian oherwydd poblogrwydd ei gerddoriaeth. Yn ogystal â 'Finlandia' cyfansoddodd saith symffoni a nifer o ddarnau eraill i gerddorfa sy'n seiliedig ar chwedloniaeth ei famwlad. Roedd o'n arwr cenedlaethol ac oherwydd hynny roedd llun ohono ar un o ddarnau papur y 'markka', sef arian y Ffindir cyn i'r 'ewro' gymryd lle'r 'markka' yn 2002, a chyhoeddwyd set o stampiau post gyda'i lun arnynt hefyd.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
**EBRILL – MAI 2015**

| | |
|---|---|
| Capel Bethel, Rhiwbeina | £100-00 |
| Capel Peniel Llanelwy | £100-00 |
| Mrs E.M.Rees, Llanelwy | £50-00 |
| Mrs Sheila A. Thomas | £50-00 |
| Casgliad bwrdd cinio Synod y Gwanwyn (Rhuthun) | £46-08 |
| Ardal De Gwynedd | £250-00 |
| Cyfanswm | £596-08 |

Gyda diolch unwaith eto am bob cyfraniad
*– Robin Jones*

# DEFOSIWN

gan MARTIN EVANS-JONES

## Y DŴR BYWIOL

"Oni chaiff rhywun ei eni o ddŵr a'r Ysbryd ni all fynd i mewn i deyrnas Dduw" Ioan 3.5

Ymwelais â mam ifanc a'i phlentyn cyntaf-anedig a gofyn iddi a fynnai gael bedyddio ei phlentyn. Roeddent wedi ystyried y mater, meddai, ac wedi penderfynu peidio. Ers hynny bûm yn meddwl yn ddwys ynglŷn â'i hateb a dod i'r casgliad nad yw'r ddefod o fedydd yn golygu dim byd bellach ond rhywbeth ffurfiol a marwaidd heb unrhyw gysylltiad â bywyd o ddydd i ddydd. Pam tybed?



*Nid yw'r dŵr a ddefnyddir yn fywiol mwyach*. Pan ddaeth dyn dysgedig o'r enw Nicodemus i weld Iesu liw nos, canfu Iesu yn syth fod y dyn yma, fel llawer un na all weld dim byd heblaw'r materol a'r rhesymol, angen ei eni o'r newydd neu, yn fwy ystyrlon, ei eni "oddi uchod".

Mae'r gred fod yna fywyd ysbrydol yn bodoli yng nghanol ein bywyd dyddiol wedi diflannu i lawer heddiw; hyd yn oed os na ddiflannodd, ni chaiff ei gysylltu â'r eglwys. Beth mae Iesu yn ei olygu wrth sôn am eni "o ddŵr a'r Ysbryd"? Ystyr dŵr yma yw dŵr bedydd, sef ein mynedfa i'r bywyd Cristnogol. Ond heb ymyrraeth yr Ysbryd nid yw ond seremoni farwaidd. Nid "dŵr bywiol" mohono oherwydd nid oes dim cysylltiad ag ysbryd Duw.

Cawsom i gyd ein geni mewn dŵr yng nghroth ein mamau. Pan fydd gwraig feichiog yn cyhoeddi bod ei dyfroedd wedi torri mae hyn yn arwydd fod y plentyn yn barod i gael ei eni. Ond mae eisiau genedigaeth arall i bob plentyn, sef genedigaeth ysbrydol.

Yr hyn oedd yn chwyldroadol ynglŷn â Iesu oedd ei berthynas hollol newydd â'r Ysbryd Glân, sef Ysbryd Duw, a'i ymwybyddiaeth barhaus ei fod yn fab i Dduw ac yn cael ei garu – fel cariad mam am ei phlentyn. Roedd yn byw ei fywyd yn yr ymwybyddiaeth honno a dyma yw fy neisyfiad i bob plentyn, sef dod i mewn i'r un berthynas â Duw. Mae'r Ysbryd Glân fel partner newydd yn ein bywyd ac rydym o hyd mewn cymdeithas ag ef. Iesu yw cyfryngwr yr Ysbryd yma ac addewir ef i bob un sydd am gredu ynddo ef. Fel "dŵr bywiol" neu "win newydd" y mae Iesu'n disgrifio'r Ysbryd Glân, ac mae'n rhoi sbonc a llawenydd i fywyd pa mor anodd bynnag fo ein hamgylchiadau. Gwyddom fod Duw o'n plaid ac felly pwy a all fod yn ein herbyn? Trwy bresenoldeb yr Ysbryd yn ein bywydau (er nad ydym efallai yn ymwybodol ohono) gwelwn Dduw'n gweithredu er ein mwyn ac mae'n gweddnewid ein holl berthynas ag eraill. Yr Ysbryd Glân yw y + yn y berthynas, sef y bont sydd yn ein cysylltu â rhywun arall, gan beri inni barchu unigolyn arall fel plentyn i Dduw. Hwn yw'r cyfrwng sydd yn agor ein llygaid mewnol, yn ein gwneud yn ymwybodol o'r "arall" yng nghanol bywyd ac ymlawenhau ynddo.

Roedd Iesu'n meddu ar ryddid anghyffredin: gallai ymateb heb ragfarn i bawb. Mae'n llawer rhy agored i'n heglwysi ni, efallai. Dim rhyfedd nad yw'r genhedlaeth ifanc yn gweld dim arwydd o'r Ysbryd, y "dŵr bywiol", ynom.

**A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13**

**CAPEL NI**
**YN EGLWYS IESU**

## Ardal Bathafarn

**DYMUNIADAU DA**
Anfonwn ein cofion anwylaf at **Gwynfryn Jones** yn Ysbyty Rhuthun, a'i briod **Dilys;** hefyd at **Glyn Jones, Gwyddelwern** a **Rhodri, Bathafarn.**

**DATHLU**
Llongyfarchiadau calonnog i **Enid Edwards, Glyndyfrdwy a Menna Parry, Gwyddelwern**, y ddwy wedi dathlu pen-blwyddi arbennig eleni. Pob bendith a hapusrwydd iddynt.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Gwyn a'r teulu o golli chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl yn ddiweddar.

**DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD**
Agoriad llygad i bob un ohonom oedd dysgu am gefndir y Bahamas, gan mai chwiorydd y Bahamas oedd wedi paratoi'r gwasanaeth eleni. Fe'n croesawyd gan chwiorydd Pendref a'r arweinydd oedd Beti Wyn Evans. Cynrychiolwyd Bathafarn gan Elizabeth, Olwen a Meta a'r cyfeilydd oedd Ceri Thomas. Prynhawn bendithiol iawn.

**Y GRAWYS**
Diolch am y myfyrdodau a gawsom yn ystod y Grawys yn y Tabernacl, yr Eglwys Gatholig, y Capel Presbyteraidd Saesneg, Eglwys Llanrhydd a Phendref.

**SUL Y BLODAU**
Bob blwyddyn ers 1946 (ac eithrio 2013 pan ddaeth eira mawr), cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ar Sul y Blodau gan gofio am fab bach R.H. a Megan Williams, Graigfechan, a fu farw. Cymerwyd rhan eleni gan Elizabeth, Lucy a Martin o Fathafarn, Glyn o Wyddelwern ac Ann o Bontuchel. Cafwyd cyflwyniadau cerddorol gan Tomos, Osian, Ynyr a Llio ac anerchiad pwrpasol iawn gan y Parchedig Jennie Hurd. Gwaetha'r modd, ni allai Gwyn, Hafod Elwy, fod yn bresennol oherwydd iddo golli ei frawd yng nghyfraith sef Gwyn Evans, Gwasg y Sir, y Bala. Y cyfeilydd oedd Rhian Roberts. Diolch iddi hi, ac i Bob am flodau i'r achlysur ac i'r rhai a baratôdd de blasus sef Mairwena Mosford, Meta, Beryl, Gwyneth ac Audrey.

**MERCHED METHODISTAIDD YM MHRYDAIN**
Cafwyd diwrnod pleserus wrth deithio i Borthmadog ar y bws gyda chyfeillion Llanrhaeadr ym Mochnant, Bathafarn, Llanelwy, Prestatyn, Bae Colwyn a Chaernarfon. Cawsom ginio blasus yn Blas, Caernarfon, drwy garedigrwydd Daniel, mab Geraint Roberts a Gwenda Humphreys. Diolch cywir i Rona Morris, Llanrhaeadr ym Mochnant, am y trefniadau ac i Valerie, y trysorydd, am ei gwaith.

**Y SYNOD**
Fel arweinydd yr Ardal, cafodd Elizabeth y fraint o estyn croeso i'r cynrychiolwyr a ddaeth i Fathafarn i'r Synod. Crybwyllodd y ffaith fod carreg fedd Edward Jones, Bathafarn, i'w gweld o flaen y capel hanesyddol hwn. Fe'i cludwyd o Leek gan y diweddar Basil Jones wedi i Bwyllgor Hanes y Dalaith drefnu hynny ym 1982.

Yn ogystal â thrafod llawer o faterion dan arweiniad medrus y Parchedig Jennie Hurd, cawsom sgwrs gan Megan Thomas y Llywydd Ieuenctid, a roddodd hwb i ni i gyd. Paratowyd lluniaeth blasus gan Mairwena Mosford gyda chymorth Meta, Rhian Hughes, Beryl, Gwenda, Gwyneth, Marian o Gorwen a Gladwen o Wyddelwern. Trefnwyd blodau gan Meta a Bob. Yn y prynhawn cafwyd cyfarfod agored gyda'r Dr Daleep Mukarji ar y pwnc 'Synod Cymru – Cenhadaeth a Dyfodol'. Newidiadau oedd yr angen, meddai Dr Daleep, tueddiad ynom i ganolbwyntio gormod ar draddodiadau. Mater o farn yw hynny, mae'n siŵr.

**DE AMERICA**
Mae Awen, merch Rhodri a Rhian, sydd yn feddyg yn Ysbyty Glan Clwyd, wedi bod yn teithio o gwmpas rhai o wledydd De America. Pob dymuniad da iddi at y dyfodol.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*


## Ebeneser, Caernarfon

**DYMUNO GWELLHAD**
Da iawn yw deall fod **Nel Williams, Tŷ Capel** a **Pearl Williams** yn gwella ar ôl cael triniaeth. Hyfryd yw cael cwmni **Glenys Williams** yn y moddion ar ôl wythnosau yn yr ysbyty ac mae **Eira Owain** hefyd yn gwella ar ôl triniaeth lwyddiannus. Dymuna **Merfyn a Mary Jones** ddiolch yn gynnes am bob caredigrwydd yn ystod gwaeledd Merfyn, sydd yn cryfhau gartref. Bu Mary hefyd yn anhwylus ond da yw ei gweld yn ein mysg unwaith eto.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Helen Parry, Is Horeb, ym marwolaeth ei mam.

**AELODAU NEWYDD**
Gyda llawenydd derbyniwyd Edward a June Aubrey yn gyflawn aelodau gan ein gweinidog, y Parchedig Gwynfor Williams. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at eu cwmnïaeth yng ngweithgareddau'r eglwys.

**BEDYDD IFAN LLYWELYN**
Bedyddiwyd Ifan Llywelyn, mab Deiniol a Manon Jones, gan ein gweinidog yn ddiweddar. Bore hyfryd; achlysur arbennig; Ifan yn gwenu'n ddisglair drwy'r cyfan a'i ddau lygad glas yn pefrio!



**Y GROGLITH**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun undebol yn Ebeneser ar fore'r Groglith, pan wasanaethwyd gan y Parchedigion Gwynfor Williams, Ronald Williams a Gwenda Richards. Yr organydd oedd Margaret Tüzüner a chanwyd unawdau gan Morwenna Roberts a John Howard Hughes. Ar ôl y gwasanaeth aethom ar daith drwy'r dref gan aros yma ac acw i fyfyrio a chanu emyn. Yna, ar ôl cyrraedd Eglwys y Santes Fair ar gyfer hanner dydd, cyfle i ymuno yn y gwasanaeth teirawr yno.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Fand Pres Ysgol Gynradd Bontnewydd ar ddod yn ail ym Mhencampwriaethau Prydain ym Manceinion ddechrau mis Ebrill. Un o aelodau brwd y band yw Catrin Jones, aelod ffyddlon yn Ysgol Sul Ebeneser, sydd yn canu'r corn tenor. Fel eglwys, rydym yn falch iawn ohoni!

*Gohebydd – Branwen Edwards*

## Eglwys Unedig Colwyn

**DYDD GWEDDI**
Cynhaliwyd Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yng Nghapel Hebron eleni, gyda chwiorydd y pedair eglwys Gymraeg leol yn cymryd rhan. Yr arweinydd oedd Mrs Elizabeth Beatty a'r organydd oedd Mrs Mary Nicolas. Cynrychiolwyd ni gan Catherine, Gwenllian, Nan a Rhiannon. Diolch i chwiorydd Hebron am y baned a'r sgon a oedd yn dderbyniol iawn ar derfyn y gwasanaeth.

**GWELLA**
Da yw cael cofnodi fod Mrs Megan Williams yn ôl yng Nghartref Wynn Crest yn dilyn llawer o wythnosau yn Ysbytai Glan Clwyd a Bae Colwyn. Anfonwn ein cofion ati hi a'r cleifion oll.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

## Tabernacl, Llanfyllin

**DRWS AGORED**
Ar ôl egwyl y gaeaf daeth aelodau Drws Agored at ei gilydd ar Ebrill 1af yn Festri'r Tabernacl. Troesom ein golygon tua Costa Rica, gyda chymorth dau aelod o'r Tabernacl sef **Keith a Decia Blacker**. Mae'r wlad hon, sydd â'r Môr Tawel ar un ochr a'r Caribî ar yr ochr arall, heb ddim byddin ac yn dewis gwario ei harian ar addysg. Mae'n wlad gyfoethog o ran llystyfiant, adar a phryfed, fel y gwelsom yn y sioe sleidiau liwgar. Gwelsom luniau o un o'r llosg-fynyddoedd, oedd yn digwydd bod yn dawel ar adeg ymweliad Keith a Decia fel y gellid gweld y mynydd yn agos. (Nid felly roedd hi yn ddiweddarach, fel roedd lluniau newyddiadurol yn dangos). Roedd y sylwebaeth yn fywiog ac addysg-iadol a diolchwyd yn gynnes iawn i'r ddau gan y Cadeirydd, **Rhoswen Charles**. Cyflwynwyd **rhodd i Gweithredu Dros Blant**, elusen y mae Keith a Decia yn ei chefnogi'n frwd. Yn y cyfarfod hefyd llongyfarchwyd a dymunwyd yn dda i **Annie Roberts**, oedd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed; a **Joyce a Geraint Jones** oedd yn dathlu eu Pen-blwydd Priodas Emrallt (55 o flynyddoedd). Dymunwyd yn dda i **Betty Ellis** sy'n gobeithio symud yn fuan i fyngalo yn Llwynyrhedyn. Gofal-wyd am y baned gan **Annie Roberts a Megan Jones**. Y tro nesaf byddwn yng nghwmni Ruth Weston a'r thema fydd 'Knit One, Pray'.

**Y GYMDEITHAS FEIBLAIDD**
Cyfarfu Grŵp y Gymdeithas Feiblaidd yn Llanfyllin yn Eglwys Myllin Sant ar Fawrth 14eg er mwyn darllen yr Efengyl yn ôl Marc ar y cyd. Daeth 26 o bobl ynghyd o gyfanswm o 8 o eglwysi, gan gynnwys plant a phobl ifanc o 2 eglwys. Darllenodd pawb yn ei dro gan gwbl-hau'r Efengyl i gyd. Yn dilyn y gweith-gareddau y bore hwn fe lwyddwyd i godi £116 er budd y Gymdeithas Feiblaidd a'i gwaith yn lledaenu'r efengyl drwy'r byd. Diolch i bawb am y gefnogaeth ac yn arbennig i Shân Maylor oedd wedi dod â thaflunydd a ffilm fideo er mwyn dangos y penodau fel roeddent yn cael eu darllen. Diolch hefyd i Nicky am ddod â'i gitâr a chyfeilio i'r emynau ar ddechrau a diwedd y cyfarfod.

**BRYSIWCH WELLA**
Dymunwn yn dda i Eurwen Jenkins Crud yr Awel ac Enid Morris Park View a fu yn yr ysbyty'n ddiweddar yn derbyn llawdriniaeth. Maent gartref erbyn hyn ac yn gwella.

**Y GRAWYS A'R PASG**
Dymuna swyddogion Cymorth Crist-nogol yn Llanfyllin a'r cylch ddiolch i bawb a gefnogodd y pedwar Pryd Grawys a gynhaliwyd yn Eglwys Myllin Sant ac i holl eglwysi'r dref a drefnodd y prydau. Roedd y cyfanswm a gasglwyd dros £250 er budd Cymorth Cristnogol.

Cynhaliwyd oedfaon undebol Eglwysi Rhyddion y dref ar nos Iau Cablyd gyda Sacrament Swper yr Arglwydd ac yna ar fore Sul y Pasg oedfa deuluol gyda phlant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan. Gwasanaethwyd yn y ddwy oedfa gan y gweinidog y Parchedig Gwyndaf Richards a'r organyddion oedd Llywela Roberts ac Eldrydd Jones. Ar nos Wener y Groglith roedd oedfaon yn yr ardal yn Llansanffraid a Llanrhaeadr ym Mochnant.

**BEDYDD**
Daeth cynulleidfa hapus ynghyd i wasanaeth bedydd Huw William Morris, mab Hayley a Stephen Morris, Maes Myllin, a gynhaliwyd yng Nghapel y Tabernacl. Y tad bedydd oedd Chris Wright a'r fam fedydd oedd Beverley Morris. Gweinyddwyd gan Tom Ellis a'r organydd oedd Llywela Roberts. Mae Huw yn ŵyr i Richard a Wenna Wright a Roy a Brenda Morris. Cyflwynodd Tom Ellis Destamentau i'r rhieni a'r rhieni bedydd ar ran y Gideoniaid.

*Gohebydd – Robin Hughes*

## Ebeneser, Porthmadog

**DIFFODDI'R FFLAM**
Ar brynhawn hyfryd o Wanwyn, sef 19 Ebrill 2015, cynhaliwyd yr oedfa olaf yn Ebeneser. Llywyddwyd yr oedfa a phregethwyd gan y Parchedig Gwyn C. Thomas. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan Robin Jones ac offrymwyd gweddïau gan W. Arvon Roberts a'r Parchedig Eric Roberts. Cyfeiliwyd gan Mr Glyn Roberts, Beddgelert.

Dechreuodd yr achos yn Llaethdy'r Wern, Penmorfa, ym 1821 ac yna ym 1832 symudwyd i ystafell ger Corn Hill, ac oddi yno wedyn i Cefn London, cyn cael darn o dir tywodlyd i godi'r capel cyntaf a agorwyd ym 1840. Eisteddai 150 a chostiodd £368. Codwyd capel newydd a'i agor yn Hydref 1871, am y swm o £1,250. Roedd yn gapel eang a'r adeiladwaith yn gadarn. Cafwyd ysgoldy hefyd ym 1894, ynghyd ag ystafelloedd eraill. Yn Chwefror 1902, prynwyd Rockliffe yn dŷ gweinidog. Pan brynwyd organ i'r capel ym 1904, yn ystod gweinidogaeth y Parch. J.R. Ellis, cafwyd £200 o rodd tuag ati gan y miliwnydd Albanaidd Andrew Carnegie. Goroesodd y capel hwnnw bron i ddiwedd yr ugeinfed ganrif ond roedd yr adeilad yn dirywio ac ym 1982 penderfynwyd ei ddymchwel. Ar safle'r ysgoldy gynt yr agorwyd yr Ebeneser presennol ym 1985 ond yn awr gorfodwyd yr ychydig ffyddlon i ddirwyn yr achos i ben. Tristwch a deimlir yn anad dim, tebyg i'r teimlad o gloi drws tŷ a fu'n gartref i'r teulu am gyfnod maith.

*Gohebydd – W. Arvon Roberts*

## Shiloh, Tregarth

**SUL Y BLODAU**
Ar Sul y Blodau cawsom Oedfa Deulu yng nghwmni plant ac ieuenctid yr Ysgol Sul. Roedd pawb wrth ei fodd o weld ein gweinidog, y Parchedig Philip Barnett, wedi gwella'n ddigon da ar ôl ei lawdriniaeth ddiweddar i ddod i'r gwasanaeth ac i roi sgwrs i'r gynulleidfa. Eglurodd inni arwyddocâd Sul y Blodau ar ddechrau'r Wythnos Fawr. Diolch o galon i'r rhai fu'n hyfforddi ac yn paratoi ar gyfer yr oedfa. Bu'n oedfa fendithiol iawn. Rhannwyd wyau Pasg a mwynhawyd paned, Bynsan y Grog a sgwrs ar y diwedd.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Gwynfor Deiniol Rowlinson, fu'n aelod prysur a chyson o Ysgol Sul Shiloh pan yn iau, ar ei lwyddiant yn cael mynediad i Goleg yr Iesu, Rhydychen, yr hydref nesaf. Rydym yn hynod falch o dy lwyddiant, Gwynfor.

**DYWEDDIAD**
Llongyfarchiadau i un arall o gyn-aelodau Ysgol Sul Shiloh ar ei ddyweddïad yn ystod y Pasg. Mae Dylan, mab Anwen a'r diweddar Tom Griffiths, Cysgod y Parc, Sling wedi dyweddïo â Lucy Boyle. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**CYDYMDEIMLO**
Daeth profedigaeth i ran dau o aelodau Shiloh, sef Valerie a David Ellis Jones, Glangors, pan fu farw modryb i Val, sef Mrs Elina Griffiths, Erw Fair, Garneddwen, Bethesda. Cydymdeimlwn â Val, David, Dewi a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

**MUDO**
Mae Mrs Edith Hughes, un o aelodau ffyddlonaf a hynaf Shiloh, wedi symud yn ôl i fyw i'w chartref yn Erw Faen wedi cyfnod yn byw yn Bro Syr Ifor tra roedd ei chartref yn cael ei adnewyddu. Pob bendith, Edith.

**EDRYCH YMLAEN AT EISTEDDFOD YR URDD**
Pob dymuniad da i rai o aelodau'r Ysgol Sul fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili.

*Gohebydd – Gwenda Davies*

## Horeb, Croesoswallt

**GWASANAETH DIFLINO**
Ar ôl yr oedfa ar fore Sul Ebrill 12fed cyflwynwyd tysteb i Mrs Sheila Ann Thomas gan y Parchedig Gwilym O Jones ar ran yr eglwys, am ei gwasanaeth diflino fel organydd a llawer dyletswydd arall am gyfnod o 45

mlynedd. Hefyd cyflwynwyd tusw o flodau iddi gan Catherine Wilson, yr organydd presennol. Llongyfarchiadau i Sheila a'r teulu hefyd ar enedigaeth gor-ŵyr draw yng Nghaerdydd.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Llongyfarchiadau i Llewelyn Roberts ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Mae ar hyn o bryd yng nghartref gofal Llysfields. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau iddo.

*Gohebydd – Eurwyn Jones*

## Ebeneser, Dolgellau

**BEDYDD**
Ar fore Sul olaf mis Mawrth, o dan ofal y Parchedig Angharad Griffith, bu gwasanaeth hyfryd i fedyddio Ilan Eric Peter Roberts, mab Llŷr a Federica a brawd bach Mali Diana, sy'n byw yn Taunton, Gwlad yr Haf. Yn Glanrhyd, Dolgellau, y magwyd Llŷr a bu'n aelod selog o Ysgol Sul Ebeneser.

**LLONGYFARCHIADAU**
Dymunwn yn dda i Iwan Jones, un arall o gyn blant yr Ysgol Sul, yn ei swydd newydd. Cafodd Iwan ei ddyrchafu i swydd Rhingyll Tîm Plismona Cymdogaeth Ardal Meirionnydd. Mae ef a'i deulu wedi ymgartrefu ym Mhenrhyndeudraeth.

**GWELLHAD**
Braf clywed bod Mrs. Peggy Walker gartref o'r Ysbyty. Dymunwn adferiad buan iddi.

**ER COF ANNWYL AM GWENOR**
Trist clywed am farwolaeth Mrs. Gwenor Jones, 7 Gwern Helyg, Dolgellau. Mi fu yn aelod o Gapel Ebeneser ar hyd ei hoes a bydd yn chwith iawn hebddi yno. Ei diweddar ŵr, Mr Gordon Jones, oedd codwr canu'r capel: rhoddodd flynyddoedd lawer o wasanaeth. Cynhaliwyd angladd Gwenor o dan ofal y Parchedig Angharad Griffith ar Ebrill 29ain. Cydymdeimlwn â'i theulu a'i ffrindiau oll yn eu colled.

*Gohebydd – Gwynedd Meredith*

# O'r pen yma



gan Angharad Tomos

Rydyn ni'n trefnu Gŵyl Gerdded R. Williams Parry yn Nyffryn Nantlle ar Orffennaf 11, a mawr yw'r edrych ymlaen. Diau mai 'Bob Rhiwafon', fel y câi ei alw yn lleol, oedd y bardd mwyaf a ddaeth o Ddyffryn Nantlle, a does dim prinder cystadleuaeth! Byddwn yn cychwyn o'r gofeb ryfel ym Mhenygroes, wedi darllen y geiriau enwog am 'y rhwyg o golli'r hogiau' ac yn cerdded i gyfeiriad Talysarn. Yno, cawn oedi ar Gaer Engan a chlywed Karen Owen yn darllen rhai o hoff gerddi'r bardd. Bydd yn ddiwrnod i'w gofio.

Dydw i ddim yn credu ein bod yn gwneud digon i ddathlu beirdd a barddoniaeth. Dydyn nhw ddim ar restr blaenoriaethau ein bywydau bob dydd. Rhywbeth i droi ato ar adeg arbennig ydyw, pan mae amser yn caniatáu. Wedi inni adael yr ysgol uwchradd, prin iawn yw'r cyfleoedd i astudio barddoniaeth a'i darllen yn gyson. Daeth i gael ei ystyried yn foethusrwydd.

Ond meddyliwch yr effaith a gâi ar ein bywydau petaem yn gwneud barddoniaeth yn rhan hanfodol o'n dydd. Byddai'n rhoi ysbaid inni feddwl yn ein bywydau prysur. Ar wahân i destunau o'r Beibl, credaf mai barddoniaeth yw'r deunydd mwyaf ysbrydol sydd gennym.

Ar fydr y mae beirdd wedi myfyrio ar ystyr bywyd, rhyfeddod geni a chariad, a dwyster marwolaeth. Falle na fedrwn ni fynegi mewn geiriau deimladau bywyd, ond mae'r beirdd wedi gwneud hynny ar ein rhan.

Fy hoff gerdd gan Williams Parry yw 'Cymru 1937'. Cafodd y bardd ei ysgwyd gan y modd y cafodd Saunders Lewis ei drin gan Brifysgol Cymru wedi iddo losgi'r Ysgol Fomio. Cri yn erbyn difaterwch yw'r gerdd hon. Boed inni deimlo rhywbeth – unrhyw beth – a boed inni gael ein hysgwyd a'n tanio gan ddigwyddiadau'r dydd. Mae'n gerdd sy'n fwy perthnasol nag erioed yn ein dyddiau di-hid ni.

**CYMRU 1937**

Cymer i fyny dy wely a rhodia, O Wynt,
Neu'n hytrach eheda drwy'r nef yn
wylofus waglaw;
Crea anniddigrwydd drwy gyrrau'r byd
ar dy hynt -
Ni'th eteil gwarchodlu teyrn na
gosgorddlu rhaglaw.
Dyneiddia drachefn y cnawd a
wnaethpwyd yn ddur,
Bedyddia'r di-hiraeth â'th ddagrau, a'r
doeth ail-gristia;
Rho awr o wallgofrwydd i'r llugoer tu ôl
i'w fur,
Gwna ddaeargrynfeydd dan gadarn
goncrit Philistia:
Neu ag erddiganau dy
annhangnefeddus grwth
Dysg i'r di-fai edifeirwch, a dysg iddo
obaith;
Cyrraedd yr hunanddigonol drwy
glustog ei lwth,
A dyro i'r difater ias o anobaith:
O'r Llanfair sydd ar y Bryn neu Lanfair
Mathafarn
Chwyth ef i'r synagog neu chwyth ef i'r
dafarn. – R.W.P

# Cyfarchwch eich gilydd

gan Dewi Rhys



Ysgrifennaf yr erthygl yma ychydig ddyddiau cyn yr etholiad cyffredinol ac mae'n fy nychryn cyn lleied o barch y mae rhai o'r arweinwyr, yr aelodau seneddol a'r ymgeiswyr yn ei ddangos tuag at ei gilydd. Wrth gwrs, rydym wedi cynefino â gweld rhai yn bytheirio a bwrw sen ar ei gilydd yn ystod trafodaethau a dadleuon Tŷ'r Cyffredin.

Gwelwn ddiffyg parch yn ein hysgolion, rhwng disgyblion ac athrawon, ac yn fwyfwy gan rieni at athrawon. Mae'n anodd dilyn gyrfa fel athro y dyddiau hyn gan na chaiff athrawon y gefnogaeth y maent yn ei haeddu. Ar y meysydd chwarae, gwelwn ymddygiad amharchus gan chwaraewyr a hynny'n arwain at ddirwy ariannol – nad yw'n golygu fawr ddim iddynt gan fod eu cyflog mor anferthol. Weithiau byddant yn ddirmygus o'r gosb ac yn mynd ar y cyfryngau cymdeithasol i fychanu'r sefydliad a roddodd y ddedfryd.

Mae'r holl gyfryngau newydd, yn negeseuon testun, e-bost, facebook, trydar ac yn y blaen, yn gallu bod o fantais i nifer ohonom ond yn gallu bod yn greulon hefyd. Y perygl yw mai taflu geiriau a wnawn yn hytrach na chyfarch a chychwyn ymgom synhwyrol. Ambell dro, ni fydd ein cyfarchiad wrth weld ein gilydd yn ddim mwy nag ebychiad neu fwmial aneglur, chwaith! Ystyriwch y Siapaneaid, sy'n moesymgrymu i ddweud 'helo', neu'r Affricanwyr a phobl y Caribî yn cyffwrdd dyrnau – cŵl ta be? Ar y llaw arall fiw i bobl o Tsieina roi llaw ar neb na rhoi braich o amgylch ysgwydd person arall gan fod hynny'n bowld. Mae rheolau'r Dwyrain yn gwbl wahanol i rai Gorllewinwyr ond yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn cyfarch ein gilydd yn ddiffuant, gyda pharch. Beth am inni i gyd gymryd mwy o amser wrth gyfarch a siarad â'n gilydd?

***Cyfarchwch eich gilydd â salmau ac emynau a chaniadau ysbrydol; canwch a phynciwch o'ch calon i'r Arglwydd. Diolchwch bob amser am bob dim i Dduw y Tad yn enw ein Harglwydd Iesu Grist. (Effesiaid 5:19)***

# Y Genhadaeth Fyd-eang

gan y Diacon Stephen Roe



*Cymdeithas Tonga*

Diolch yn fawr i bawb sydd yn gweithio'n galed i drefnu digwyddiadau i godi arian i'r Genhadaeth Fyd-eang, i bawb sy'n casglu drwy'r flwyddyn o dan gynllun JMA, and i bawb sydd yn gwneud y gwaith gweinyddol sef cadw cofnodion a chyfrifon. Yn ystod y flwyddyn 2013-14, casglwyd bron i dair mil a hanner o bunnau yn Synod Cymru.

Ym mis Chwefror cynrychiolais y Synod yng Nghynhadledd Fforwm y Genhadaeth Fyd-eang, a gynhaliwyd yn Hinsley Hall, Leeds. Mae Hinsley Hall bellach yn Ganolfan Encil i Esgobaeth Gatholig Leeds, ond tan 1967 roedd yn goleg i hyfforddi gweinidogion Methodistaidd. Cyn mynd i'r Gynhadledd, wyddwn i ddim bod nifer o Gymdeithasau Rhyngwladol yn rhan o'r Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain, a diddorol oedd clywed gan gynrychiolwyr rhai ohonynt - Ghana, Tonga, Fiji a Zimbabwe. Cristnogion sydd â'u gwreiddiau yn y gwledydd dan sylw sy'n perthyn i'r Cymdeithasau hyn ac mae iddynt ddau brif amcan.

Yn gyntaf, annog a chynorthwyo'r aelodau i ymuno ag eglwysi yn y mannau lle maent yn byw ym Mhrydain, gan chwarae rhan lawn ynddynt; ac yn ail, dod â'r aelodau at ei gilydd o bryd i'w gilydd i gymdeithasu ac addoli yn eu hiaith eu hunain a chael cyfle i ddathlu eu diwylliant eu hunain. Dyma rywbeth sy'n agos at ein calonnau ni yn Synod Cymru. Mae gan bob Cymdeithas gaplan, sy'n gweithio'n rhan-amser fel gweinidog ar Gylchdaith, gan roi gofal bugeiliol hefyd i aelodau'r Gymdeithas - tipyn o her os ydynt yn byw ym mhob rhan o Brydain!

Yng Nglyn Ebwy y sefydlwyd Cymdeithas Tonga, a hynny yn 1998. Chwaraewyr rygbi oedd wedi dod i chwarae dros dimau yn Ne Cymru oedd y rhan fwyaf o'r aelodau cyntaf, ynghyd â'u teuluoedd. Caplan presennol y Gymdeithas hon yw'r Parchedig Iesinga Vunipola, sydd yn gwasanaethu ar Gylchdaith High Wycombe ac y mae ei dau fab yn chwarae rygbi dros Loegr. Holais pam nad ydynt wedi dewis chwarae dros Gymru! Ond teulu sydd â mwy o synnwyr yw teulu Taulupe (Toby) Faletau, hwythau hefyd yn aelodau o'r Gymdeithas.

# Taro'r Post

Plas Garnedd
Llanfair Pwllgwyngyll

Annwyl Ffion a Robin,

Diolch am anfon y Gwyliedydd. Rwyf bellach wedi symud o Dincolyn, Diserth i Lanfair PG i fod gyda'r teulu, y Parch a Mrs Owen E. Evans, ac wedi ymgartrefu'n iawn. Y mae llawer o Gymry Cymraeg ymysg y trigolion a'r staff.

Hyn gyda chofion cynnes
**John Herbert Williams**

**RHYS JONES**

Arwr corau a cherddorion,– heulwen
Gwalia a'i chantorion;
yn ein cof mae'r atgofion
o'i ddawn ef y flwyddyn hon.

*Robin Hughes*

# Geiriau Olaf

gan Euron Hughes

"Either that wallpaper goes or I do." Yn ôl y sôn, dyna oedd geiriau olaf Oscar Wilde. Mae geiriau olaf enwogion yn aml yn cael eu dyfynnu. Rhai ohonynt yn ddoeth, rhai'n ddwys, rhai yn crisialu natur a chymeriad y person.

Pan fydd enwogion yn ein gadael ni, mae yna wastad deimlad o dristwch. Pan oeddwn yn bump oed, cofiaf fy nhad yn reit drist pan ddaru John Wayne farw. A dwi'n siŵr bod pawb yn cofio ymateb y wlad a'r byd i farwolaeth y dywysoges Diana.

Eleni rydym fel cenedl wedi colli nifer o gymwynaswyr mawr: Dr John Davies, Dr Meredydd Evans, yr Athro John Rowlands a'r Athro R. Geraint Gruffydd. Mae cyfraniad y bobl yma i'n gwlad a'n diwylliant yn anfesuradwy. Cefais gyfarfod Merêd sawl gwaith ac mi roedd yn ŵr gwybodus, bonheddig a chyfeillgar ac yn gwmni da, llawn hwyl.

Ond y golled ddiweddar a gafodd fwyaf o effaith arnaf oedd colli gŵr o'r UDA. Ni chefais ei gyfarfod erioed, ond roedd yn berson a oedd yn bwysig iawn yn ystod fy mhlentyndod...a thu hwnt! Am Leonard Nimoy rwyf yn sôn. Pwy? Wel, fel Mr Spock yr oedd fwyaf adnabyddus - y creadur gyda chlustiau pigfain o'r blaned Vulcan. Fe hunodd yn 83 mlwydd oed ar ôl brwydro gyda salwch yn gysylltiedig ag ysmygu. Er bod Nimoy yn ffotograffydd o fri, yn fardd ac yn gyfarwyddwr ffilmiau, fel Mr Spock y bydd y rhan fwyaf ohonom yn ei gofio.

Drwy'r cyfryngau cymdeithasol, bydd enwogion yn aml iawn yn rhannu eu bywydau â'r byd a'r betws. Beth bynnag oedd geiriau olaf Nimoy i'w deulu, dylent aros yn breifat. Ond ei "tweet" neu drydar olaf oedd hyn: "Life is like a garden. Perfect moments can be had but not preserved, except in memory. LLAP." Hynny ydi, mae bywyd wastad yn symud ac nid yw'n fêl i gyd. Ond dylid cofio'r adegau da. Ac os yw bywyd fel gardd, rhaid trin yr ardd honno. Rhaid tynnu'r chwyn a'u llosgi. Mae'n waith caled, ond ni ddylid ei esgeuluso. Ni wyddom a oedd Nimoy yn gwybod mai hon fyddai ei neges gyhoeddus olaf. Ond maen nhw'n eiriau hardd a chofiadwy.

Gair olaf yr Arglwydd Iesu ar y groes yn ôl Efengyl Ioan oedd "Gorffennwyd." Does dim amheuaeth am natur y gair – "Gorffennwyd." – Roedd Iesu wedi cyflawni ei amcanion.

Beth allwn ni ei ddweud am ein bywydau ninnau? Yn ystod ein taith drwy'r byd hwn, rhaid i ni i gyd ddal ati, dal ein tir a sefyll yn gadarn dros ein hegwyddorion er gwaetha'r gost.

Ac i adleisio cyfarchiad Mr Spock: Boed i chi hir oes a ffyniant! Live long & prosper.

# Un Teulu Ydym Ni

gan Edward Morris Jones

Rwy'n ysgrifennu'r ychydig eiriau hyn yn ystod mis Ebrill, mis y Gwanwyn a mis deffroad newydd bob blwyddyn. Eleni hefyd dyma gyfnod y Pasg. Wrth ddiolch am gyfle i rannu meddyliau â chi, ddarllenwyr y Gwyliedydd, teimlaf hi yn fraint ac yn gyfrifoldeb cael gwneud hynny.

A minnau yn awr yn fy nghanol oed 'aeddfed' credaf yn gynyddol nad yw gwahaniaethau ar sail enwad, cynulleidfa neu garfan o fewn Eglwys Iesu Grist yn golygu nemor ddim imi. Ffawd oedd i mi gael fy magu, ym Meirionnydd, ar aelwyd lle mai o lyfr canu yr Annibynwyr - y Caniedydd - y deuai'r emynau a ganem o Sul i Sul. Er hynny, Methodistiaid Calfinaidd (Presbyteriaid, ie?) fu aelodau'r teulu ar ochr fy nhad, a bu'r teulu â chysylltiad agos â'r Bedyddwyr erioed. Dros y blynyddoedd gwneuthum hefyd gyfeillion da o'ch plith chi yn yr Eglwys Fethodistaidd, o'r Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig, ac o blith aelodau o sawl carfan lai o addolwyr, yma yng Nghymru ac ymhell y tu hwnt.

Wrth fy ngalwedigaeth, pennaeth ysgolion dyddiol, yn byw yng nghymuned ei ysgolion fûm i am y rhan helaethaf o'm bywyd. Yn yr ysgolion hynny deuai'r disgyblion, nid yn unig o gartrefi o bob 'enwad' o Gristnogion, ond o sawl cefndir crefyddol arall ac, wrth gwrs, yn aml o gartrefi lle nad oedd unrhyw sôn am fywyd ysbrydol. Nid oeddwn ar unrhyw bryd yn breuddwydio am wahaniaethu rhwng plentyn a phlentyn ar sail cefndir crefyddol. Oni fyddai hynny'n hollol anfoesol? Ceisio cyfannu a chynnwys pawb, pontio a dileu'r gwahaniaethau rhyngom fu fy hanes i erioed, fel y mwyafrif llethol o rai yn yr un sefyllfa â fi, mi gredaf.

A minnau yn fy ugeiniau ifanc, dechreuodd ceisiadau ddod am i mi gymryd rhan mewn oedfaon, ac yna i arwain y myfyrdod ar y Sul. Bu hynny ar hyd a lled gogledd a chanolbarth Cymru yn bennaf, a digwyddodd hynny yn ddifwlch ers yn agos i hanner can mlynedd bellach. Dros y blynyddoedd hynny cefais gyfleoedd cyfoethog i gydweithio, a rhannu profiadau dwys, â miloedd o addolwyr o sawl enwad. Cefais gyfleoedd lu i weithio gyda phlant a phobl ifanc ardderchog yn ogystal â gyda'r rhai hynny ohonom sydd yn cael ein hystyried yn ganol oed, neu well!

Yma, felly, ailadroddaf na fu gennyf erioed ddiddordeb mewn rhannu a charfanu pobl. Teimlaf, fel Cristion, mai braint na allaf ei mesur yw cael helpu ymhob modd posibl i ddod â'r neges fawr am yr hyn a adawodd Ef i'w ddilynwyr i gymaint o bobl ag y gallaf. Ceisiais wneud hynny bob amser mewn ffyrdd sydd mor eglur a pherthnasol ag sy'n bosibl.

Mae neges Iesu Grist, yn ei hanfod, yn un syml, wedi ei seilio ar gariad, ar garu'n gilydd a dod i garu pawb arall o'n cwmpas. Fel ag i nifer gynyddol o ddilynwyr Crist dros y byd, creu'r 'Nefoedd' yma ar y ddaear ac yn fy mywyd i fy hun a'm cyd-ddyn sy'n bwysig i mi, nid dibynnu ar gyrraedd rhyw 'Nefoedd' – rhyw fan gwyn man draw yn rhywle arall pan ddaw fy mywyd ar y ddaear hon i ben. Fyddech chi'n cytuno?

Yn ei hanfod, pwrpas ein bywyd ysbrydol yw ein cael i fyw bywyd 'gwell' a llai hunanol ar y ddaear. Mae hynny yn ein harwain ni yn union i feddwl am eraill, i wasanaethu cyd-ddyn yn amlach, i hyrwyddo heddwch a chymod â'n gilydd ac â phobloedd dros y byd.


Yn syml, teulu mawr yw teulu dyn i mi, ac os medra i ddod ag aelodau'r teulu hwnnw, o bob lliw a chefndir ac iaith yn nes at ei gilydd rywsut, gan chwalu rhai o'r muriau sy'n ein gwahanu ni, yna mi fydda i'n teimlo mod i wedi gwasanaethu Crist mewn rhyw ffordd fechan, fach yn fy mywyd. Neu fel yna rydw i yn ei gweld hi.

Yn Iesu Grist. Amen

# *Planhigion y Beibl*

gan W Arvon Roberts


### 73. Perth o dân
(Loranthus acaciae)



Yr oedd Moses yn bugeilio defaid ei dad-yng-nghyfraith Jethro, offeiriad Midian, ac wrth iddo arwain y praidd ar hyd cyrion yr anialwch, daeth i Horeb, mynydd Duw. Yno ymddangosodd angel yr Arglwydd iddo mewn fflam dân o ganol perth. Edrychodd yntau a gweld y berth ar dân ond heb ei difa.
Exodus 3: 1,2

Yn yr hanes hwn am Moses yn cael ei alw gan yr Arglwydd, y berth y cyfeirir ati yw un o'r acesiau pigog a dyfai'n drwchus dros y Wlad Sanctaidd yn y cyfnod cynnar. Yr enw Hebraeg arni yw seneh. Ond nid y berth oedd yn llosgi; yn hytrach roedd yr uchelwydd a orchuddiai'r llwyn yn debyg i fflamau. Aeron coch y planhigyn oedd yn gloywi a goleuni'r Arglwydd yn gwneud iddynt edrych fel tân iawn. Wedyn, pan oedd Moses ar ei ben ei hun unwaith eto, gwelodd nad oedd y berth wedi ei difa.

### 74. Pinwydd
(Abies cilicica)



Daw gogoniant Lebanon atat – y ffynidwydd, y ffawydd a'r pren bocs – i harddu man fy nghysegr.
Eseia 60: 13

Y ffynidwydden y cyfeirir ati yw pinwydd Cilicia, coeden hardd sy'n tyfu'n dal iawn. Mae ei nodwyddau llwydwyrdd yn fflachio fel arian yng ngoleuni'r haul. Daw'r gair *pin* o'r Lladin pinus; mae'r pren yn hawdd i'w dorri ac yn cael ei ddefnyddio gan bobl gyntefig i wneud cychod a rafftiau. Os torrir côn y pinwydd ar ei hyd, mae'r marc sydd ar ei wyneb yn debyg i siâp llaw. Yn ôl traddodiad, llaw Crist ydyw, marc yn dangos ei fendith ar y goeden a fu'n cysgodi Mair, ei fam, pan oedd hi'n ffoi gyda'i theulu oddi wrth filwyr Herod.

# Merched Methodistaidd yng Nghymru – Cyfarfod y Gwanwyn

gan Rona Morris



Ar 11 Ebrill, daethom ynghyd i gapel Salem, Porthmadog, i wrando ar sgwrs gan **Llinos Roberts** am lwyddiant rhai o'r prosiectau a ddaeth i fod drwy ymdrechion **Cymorth Cristnogol**. Cawsom ein hysbrydoli gan sgwrs Llinos i fynd ati i godi arian er mwyn cefnogi gwaith y mudiad. Soniwyd yn bennaf am ymgyrchoedd sydd yn **gwella bywydau merched**, yn y gwledydd hynny lle mae rhoi genedigaeth i ferch yn parhau i fod yn achos gofid a dagrau i'w mam.
Mae Cymorth Cristnogol ers rhai blynyddoedd wedi annog pobl i brynu gafr yn anrheg pen-blwydd neu Nadolig i gyfeillion a pherthnasau. Drwy fod yn berchennog ar afr caiff merch yr hawl i fod yn aelod o bwyllgor y pentref a lleisio ei barn. Mae'n ei galluogi i fwydo ei theulu a chroesawu cyfeillion i'w chartref. Wedi magu geifr, mae modd talu'r pwyth yn ôl drwy gyflwyno gafr yn ôl i'r mudiad fel eu bod hwythau yn medru helpu teulu arall. Drwy gynnig defaid a geifr i deuluoedd tlawd, galluogir merched ifanc i aros gyda'u teulu yn lle cael eu gorfodi i briodi cyn bod eu cyrff yn barod i feichiogi ac esgor. Dyma faes lle bu **Cymorth Cristnogol yn lobïo ac yn addysgu yn effeithiol**.
Diolch i aelodau Pen Llŷn am eich croeso cynnes; i Valerie Williams a Frances Griffiths am arwain y defosiwn; am gyfraniadau cerddorol yr organydd y Parchedig Iwan Ll. Jones ac Alun Jones Williams ein hunawdydd dawnus; ac am y gwmnïaeth ar y bws wrth deithio i'r cyfarfod. Edrychwn ymlaen yn awr **at ein cyfarfod nesaf ar 10 Hydref yn Seilo, Llandudno,** pan fyddwn yn croesawu'r **Athro Mari Lloyd Williams** i'n hannerch. Croeso i bawb, yn ferched a dynion.




Bu criw o Gadeiryddion yr Eglwys Fethodistaidd a rhai o'u ffrindiau ar daith gerdded i ddilyn ôl troed Mary Jones o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala. Dyma'r cerddwyr ar ddechrau eu taith. O'r chwith: Parchg Ann Brown (Beds., Essex & Herts.), Parchg Jennie Hurd (Synod Cymru), Parchg Stephen Wigley (Wales Synod), Parchg John Howard (Wolverhampton & Shrewsbury), Parchg Michaela Youngson (Llundain), Parchg Peter Barber (Chester & Stoke), Dcn Lorraine Brown (Swyddog Datblygu Gwledig Parc y Peak), Parchg Ruth Gee (Darlington), Parchg Roger Walton (West Yorkshire), Parchg Leo Osborn (Newcastle).



Croesoswallt: diolch i Sheila Ann Thomas am 45 mlynedd o wasanaeth fel organydd



Oes unrhyw ddarllenydd yn gwybod ym mha dref glan môr yng Nghymru y mae'r adeilad hwn? Capel Wesla gynt ond yn awr yn gwerthu hufen iâ da.



# Tudalen y Plant


MARC 4:35-41

## Iesu'n Tawelu'r Storm


Adnod i'w dysgu:

**Paid ag ofni; yr wyf fi gyda thi**

(Eseia 43:5)



*Llun drwy garedigrwydd Roots for Churches*



Roedd Iesu yn dysgu ac yn iacháu pobl yn ymyl Llyn Galilea. Un noson, penderfynodd groesi i ochr draw'r llyn mewn cwch. Rhai o ddisgyblion Iesu oedd yn hwylio'r cwch. Roeddent wedi hen arfer hwylio gan eu bod wedi tyfu i fyny ar lan y llyn ac wedi bod yn bysgotwyr yno.

Roedd Iesu wedi blino ac aeth i gysgu ar glustog yn y cwch. Ond yna, yn sydyn, mi gododd hi'n wyntog iawn. Roedd hi'n storm, ac yn mynd yn waeth ac yn waeth. Cyn bo hir roedd y tonnau mor fawr fel eu bod yn golchi dros y cwch. Dychrynodd y disgyblion. Roedd y cwch yn dechrau llenwi â dŵr ac roedd arnyn nhw ofn boddi. Dyma nhw'n galw ar Iesu. "Iesu, Athro da, achub ni!" medden nhw.

Deffrôdd Iesu a dywedodd wrth y gwynt am beidio â chwythu, ac wrth y tonnau mawr am fod yn llonydd. Tawelodd y gwynt. Roedd y storm wedi mynd heibio. "Pam y mae arnoch chi ofn?" meddai Iesu wrth ei ddisgyblion. "Pam nad oes gennych chi ffydd?"

Daeth ofn mawr dros y disgyblion. "Pwy ydi hwn?" medden nhw wrth ei gilydd. "Mae hyd yn oed y gwynt a'r môr yn ufuddhau iddo".

**Beth am liwio'r llun?**

**A = melyn** **B = glas**
**C = gwyrdd** **D = coch**